

CROESO

Croeso i newyddion Saith Seren - taflen ar gyfer pob aelod o'r fenter gydweithredol unigryw yma.

Ar ôl ein cyfarfod cyffredinol roeddwn am sicrhau fod aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau a digwyddiadau'n fwy cyson a dyma'r cyntaf o'n taflenni newyddion.

Byddwn yn ceisio ei ddanfôn ar ffurf electroneg er mwy lleihau'r gost ond bydd pobl heb e-bost yn derbyn hwn hefyd.

Llwyddiant tîm pwl

Llongyfarchiadau i'r tîm pwl ar ennill y Gwpan a'r Gynghrair yn eu tymor cyntaf - tipyn o gamp!

Da di'r dysgwyr

Da clywed fod Steve Kynaston, trysorydd Saith Seren ac un o'n dysgwyr brwd, wedi pasio ei arholiad Canolradd gyda rhagoriaeth. Mae'n grediniol fod yr ymarfer siarad mae'n cael yn Saith Seren wedi helpu ei waith llafar ac mae'n annog pob dysgwr i ddod draw i fwynhau sgwrs gymdeithasol unai efo'r grwp bob nos Lun neu'n fwy cyffredinol unrhyw ddiwrnod.

Dweud eich dweud

Mae Carrie Harper, ein swyddog marchnata, yn awyddus iawn i glywed mwy gan aelodau a chefnogwyr Saith Seren am ffyrdd i wella'r ganolfan.

Rhowch wybod iddi hi be hoffech weld yn digwydd yma er mwyn ei wneud yn well canolfan - mae ganddom lawer i'w wneud cyn cyrraedd y nod.

Pryd am ddim i'r plant

O rwan hyd ddiwedd gwyliau'r haf bydd plant yn cael bwyta am ddim yn Saith Seren - pryd am

ddim o'r fwydlen blant efo pob pryd oedolyn. Dewch draw i fwynhau bwyd bendigedig Ben!

Gwyl gwrw haf

Yn dilyn ein gwyl gwrw go iawn llwyddiannus fis Chwefror, byddwn yn cynnal **gwyl gwrw haf** ar benwythnos Awst 23-25.

Bydd cwrw o bob cwr o Gymru. Dewch draw i'w flasu!

Stafelloedd ar log

Mae stafelloedd sy'n dal hyd at 20 o bobl ar gael i'w llogi gan fudiadau neu fusnesi am £5 neu £10 yr awr (yn dibynnu os ydych yn gwmni masnachol ai peidio). Mae lifft i'r anabl. Gallwn ddarparu te, coffi a lluniaeth ysgafn os oes angen.

Rydan ni'n falch iawn fod dau fudiad - Learn Cymraeg a Popeth Cymraeg - am fod yn cynnal gwersi Cymraeg fis Medi. Bydd cyrsiau ar gael i bob lefel o ddysgwyr, felly rhowch wybod i bawb sydd am fentro y tymor nesaf... manylion y tu ôl i'r bar neu drwy ffonio 447006.

Croeso i Cylch Ti a Fi

Cylch Ti a Fi bob pŵn Mercher rhwng 1.30-3pm fyny grisiau - croeso i bawb.

Arbrawf Sky TV

Mae Sky TV yn Saith Seren am arbrawf o 6 mis - bydd hwn yn golygu y gallwn ddangos gemau'r Llewod, gemau rhyngwladol pel-droed Cymru yn ogystal a chwarae eraill sydd ddim ar gael ar deledu arferol.

Mae'n ddrud a byddwn yn adolygu'i werth ond mae'n profi'n atyniad efo rhai digwyddiadau. Gwerthfawrogwn eich barn.

Isio trefnu digwyddiad neu codi arian ar gyfer achos da?

Gallwn drefnu noson yn Saith Seren - gan gynnwys tocynnau, band, posteri etc - I chi. Cysylltwch ag Amanda y rheolwraig ar 01978 447 006.

Bwydlen Nadolig

Mae'r fwydlen Nadolig ar fin cael ei gyhoeddi - gwnewch yn siwr eich bod yn bwcio eich parti Nadolig mewn da bryd!

Digwyddiadau

Cymraeg yr Hydref

20/09/13 Noson i gofio Doc (Dr Gareth) gyda Hogia'r Wyddfa, Trio a Huw Marshall - £5

18/10/13 Noson Gomedï efo Daniel Glyn ac eraill £10

22/11/13 Brigyn £5

13/12/13 Dafydd Iwan - £12

17/01/14 Noson arbennig efo Wali Tomos, C'mon Midffild